# Ymchwilio i wybodaeth am deithio a chyrchfannau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn canolbwyntio ar yr ymchwil mae ei hangen i gynnal darlun cywir o gyrchfannau teithio a thwristiaeth presennol a phosibl ac i ddeall pam mae cwsmeriaid yn dewis teithio iddynt.

Mae nodweddion fel cyfleusterau, datblygiadau lleol, cysylltiadau trafnidiaeth ac atyniadau'n newid dros amser ac mae'n bwysig bod disgrifiadau o gyrchfannau'n gyfredol, pa un a yw'r wybodaeth honno'n cael ei rhoi i gwsmeriaid posibl neu i sefydliadau eraill (fel asiantaethau teithio).

Argymhellir y safon hon i'r bobl hynny sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth am deithio a chyrchfannau'n gyfredol ac yn gywir.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

Ymchwilio i wybodaeth am gyrchfannau a chynhyrchion teithio:

1.
fel bod cyfleoedd addas yn cael eu hadnabod a'u defnyddio i gasglu data a gwybodaeth defnyddiol ynghylch cyrchfannau a chynhyrchion teithio
2.
fel bod ffynonellau gwybodaeth dibynadwy sy'n cyflawni'ch amcanion penodol o ran ymchwil yn cael eu hadnabod a'u defnyddio
3.
fel bod unrhyw fylchau mewn setiau data yn cael eu canfod ac fel bod eu heffaith ar gasgliadau'n cael ei hasesu
4.
fel bod data a gwybodaeth yn cael eu casglu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i fodloni gofynion eich sefydliad
5.
fel bod data a gwybodaeth yn cael eu casglu ar yr adegau iawn ac yn ddigon aml i gyflawni'ch amcanion o ran ymchwil
6.
fel bod yr holl ddata a gwybodaeth a gesglir yn gywir ac yn gyfredol, gan gymryd i ystyriaeth y gallai ffynonellau fod yn unochrog
7.
fel bod data a gwybodaeth yn cael eu cofnodi'n gywir a'u cyflwyno yn y fformat gofynnol
8.
fel bod data'n cael eu storio'n ddiogel gan ddefnyddio system(au) gwybodaeth y sefydliad yn gywir ac fel eu bod ar gael i gydweithwyr priodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*